Cofrestrfa Tir EF

# Cais am gyfyngiad gan gwmni

# RQ(Co)

**Anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi trwy'r post i:**

**Citizen Centre – RQ(Co)**
PO Box 74
Gloucester
GL14 9BB

Rhif DX: 321601 Gloucester 33

Gallwch anfon y ffurflen hon hefyd trwy ebost at rq-request@landregistry.gov.uk. **Os ydych yn dewis ei hanfon trwy ebost, byddwch yn ymwybodol nad yw'r wybodaeth a dderbyniwn gennych dros y rhyngrwyd wedi ei hamgryptio ac mae'n bosibl na fydd yn gwbl ddiogel. Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau.**

**Lluniwyd y cyfyngiad a nodir yn adran 4 i helpu atal ffugiad. Mae'n gwneud hyn trwy ei wneud yn ofynnol i drawsgludwyr ardystio eu bod yn fodlon mai'r cwmni sy'n trosglwyddo neu'n morgeisio'r eiddo yw'r un â'r cwmni sy'n berchennog a bod unrhyw un sy'n arwyddo fel swyddog y cwmni yn dal y swydd honno ar y pryd. Sylwer y gallai trawsgludwr godi ffi am ddarparu'r dystysgrif. I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.**

Nodwch gyfeiriad cysylltu'r cwmni sy'n gwneud cais i gofnodi'r cyfyngiad. Lle y mae trawsgludwr yn cyflwyno'r ffurflen hon, rhaid nodi manylion y cwmni, nid y trawsgludwr.

## 1 Y cwmni sy'n gwneud y cais:

Enw'r cwmni:
Rhif cofrestru'r cwmni:
Rhif/enw'r eiddo:
Enw'r stryd:
Tref:
Sir: Cod post:
Rhif ffôn:
Cyfeiriad ebost:

**Gallwch wneud y *cais* hwn o ran hyd at dri theitl cofrestredig. Os ydych am i'r cyfyngiad gael ei gofnodi ar gyfer unrhyw deitlau ychwanegol, rhaid i chi lenwi *ffurflen RX1* o ran y teitlau hynny, a thalu'r ffi briodol.**

**Os oes sawl eiddo wedi eu cynnwys mewn teitl unigol, rhaid dangos dim ond un ohonynt.**

## 2 Cyfeiriadau eiddo wedi eu cynnwys yn y teitl cofrestredig:

a
Rhif/enw'r eiddo:
Enw'r stryd:
Tref:
Sir: Cod post:

b
Rhif/enw'r eiddo:
Enw'r stryd:
Tref:
Sir: Cod post:

c
Rhif/enw'r eiddo:
Enw'r stryd:
Tref:
Sir: Cod post:

Nodwch rifau teitl yr eiddo yma os ydych yn eu gwybod. Os nad ydych yn eu gwybod, neu'n gwybod dim ond rhai ohonynt, gadewch y rhai nad ydych yn eu gwybod yn wag.

## 3 Rhif teitl:

a:
b:
c:

| At ddefnydd swyddogol yn unig |
|---|
| Cod TIS Cofrestrfa Tir EF **RXC** |

Llenwch adran 4 os **nad ydych yn drawsgludwr**.

4 Rwy'n swyddog y cwmni sydd, neu a fydd yn dilyn cofrestriad, yn berchennog cofrestredig yr eiddo.

Rwy'n gofyn i Gofrestrfa Tir EF gofnodi'r cyfyngiad ar y ffurf ganlynol yn y gofrestr:

Dyma'r geiriad a fydd yn ymddangos ar eich teitl pan gofnodir y cyfyngiad.

"Nid oes gwarediad o'r ystad gofrestredig gan berchennog yr ystad gofrestredig i'w gwblhau trwy gofrestriad heb dystysgrif wedi ei llofnodi gan drawsgludwr bod y trawsgludwr yn fodlon (1) mai'r cwmni a gyflawnodd y ddogfen a gyflwynwyd i'w chofrestru fel gwaredwr yw'r un cwmni â'r perchennog, a (2) y cymerwyd camau rhesymol i gadarnhau bod pob unigolyn a lofnododd fel swyddog y cwmni yn dal y swydd a nodwyd ar adeg y cyflawni."

Bydd y cais hwn ar gyfer dim mwy na thri chyfyngiad o ran eiddo'r cwmni sydd wedi eu cofnodi yn dilyn cais i'r cofrestrydd ar ffurflen RQ(Co).

Llofnodwch yma a nodwch ym mha awdurdod yr ydych yn llofnodi (hy cyfarwyddwr neu ysgrifennydd)

Llofnodwyd: Dyddiad:

Awdurdod:

Llenwch adran 5 dim ond os mai **trawsgludwr ydych**.

5 Rwy'n drawsgludwr, yn ôl diffiniad rheol 217A o Reolau Cofrestru Tir 2003, ac rwy'n cynrychioli'r cwmni a enwir uchod.

Mae'r cwmni'n gwneud cais i'r cofrestrydd gofnodi'r cyfyngiad a nodir yn adran 4.

Fe'm hysbysir y bydd y cofnod hwn ar gyfer dim mwy na thri chyfyngiad o ran eiddo'r cwmni sydd wedi eu cofnodi yn dilyn cais i'r cofrestrydd ar ffurflen RQ(Co).

Enw'r trawsgludwr:

Cyfeiriad neu rif DX yn y DU y trawsgludwr:

Tref:

Sir: Cod post:

Dim ond os yw cyfeiriad ebost yn cael ei nodi y byddwn yn anfon llythyron rhybudd am ddileu at drawsgludwyr.

Cyfeiriad ebost:

Cyfeirnod: Rhif ffôn:

Llofnodwyd: Dyddiad:

Mae 'Gwarchod eich tir a'ch eiddo rhag twyll' sydd ar gael o wefan GOV.UK yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am y camau y gallwch eu cymryd i ddiogelu'ch hunan yn erbyn twyll eiddo.

**Anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi trwy'r post neu ebost i'r cyfeiriad ar ben tudalen 1.**

**Rhybudd**

Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda'r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 08/20